



"Alas! my poor Brother"

Ar drywydd yr hen darw a'r tê bîff

HYSBYSEB Bovril o'r ganrif o'r blaen a ysbrydolodd y stori yma, a gyda hysbyseb Bovril y mae hi'n gorffen. Ond rhwng y dechrau a'r diwedd mae yna ddyrys daith a brofodd yn un broffidiol ei datguddiadau hefyd.

Ddechrau'r flwyddyn yn ei henfro yn Nhynygongl, Ynys Môn, bu farw Sian Lloyd Williams dipyn dros ei deg a phedwar ugain. Bu'n briod ag Idwal, mab John Lloyd Williams a gyhoeddodd ei atgofion tri chwarter canrif, a oedd yn feddyg teulu yn Bath, ac yno yn ei gartref ef a Sian y treuliodd John Lloyd Williams ei ddyddiau olaf.

Dychwelodd Sian yn weddw i'w hen gynefin ym Môn. Roedd yn wraig nodedig, loyw ei Chymraeg ar dafod ac ar bapur ac fe dreuliais i gryn amser yn ei chwmini pan oedd yn ysgrifennu ei chyfrol o atgofion *Mat Racs*. Ac wrth sôn am John Lloyd Williams cyfeiriodd at ei frawd Hugh a oedd yn artist medrus. Digwyddodd ddweud hefyd iddo lunio poster i hysbysebu Bovril — llun tarw trist yr olwg yn llygadu potel fechan o Bovril a'r geiriau dano *'Alas! my poor brother.'*

YR OEDD fy nhrwyn yn aroglu stori yn y fan hyn a'r ysfa newyddiadurol yn fy herio i'w darganfod. Bu'r ysfa yma am flynyddoedd — heb yr ymroddiad digonol ac heb unrhyw oleuni. Ac yn hytrach na rhoi'r ffidil yn y to dyma ofyn o'r diwedd i Richard H. Lewis a

fedrai rywfodd neu'i gilydd gael gafael ar yr hysbyseb yn ogystal â thipyn o hanes Hugh Williams.

Darganfu Richard gyfoeth o wybodaethau am yr artist a'i fywyd a'i waith, ac yr oedd y cyfan yn *Y Casglwr* diwetha'. Ond bu raid iddo gydnabod na lwyddwyd i ddarganfod yr hysbyseb. Eto roedd wedi medru agor mymryn ar un drws — y medrwyd ei agor led y pen yn y diwedd.

Ei erthygl hefyd o ddiddordeb arbennig i un o danysgrifwyr *Y Casglwr* o Gaerdydd a eglurodd fod pedwar o'r chwech o adgynrychiadau o'r personau hanesyddol (bu llun dau yn *Y Casglwr*) a bortreadodd Hugh Williams, yn ei feddiant.

A'r hanes yn dwyn Hugh Williams ei hun i gof Guto Roberts. Roedd yn ei adnabod yn dda yn ystod ei flynyddoedd

olaf yn Ngarn Dolbenmaen er na wyddai ei fod yn arlunydd o gryn fri.

* * *

OND FE barhaodd Guto Roberts yr ymchwil am yr hysbyseb Bovril. Roedd Richard Lewis eisoes wedi darganfod fod gan y cwmni, sef CPC, archifdy lle cedwid hanes a hysbysebion cwmni Bovril yn Burton-on-Trent. Ond pan holwyd am hysbyseb a llun tarw arno eglurwyd fod yna nifer mawr iawn o hysbysebion a tharw yn rhan amlwg ynddynt ac nad oedd cofnod am yr un gan unrhyw Hugh Williams.

Yna fe gofiwyd i Sian Lloyd Williams nodi fod y geiriau *'Alas! my poor brother'*, o dan y llun, a

dyma ddechrau gweld golau dydd. Ond dim ond dechrau. Wedi ymchwilio canfu'r archifdy, a bu'r ferch sy'n ei oruchwyllo yn eithriadol o gynorthwygar, nid un hysbyseb a *'Alas! my poor brother'* o dan lun y tarw—ond dau.

Mae'r ddau lun yn hynod o debyg, fel y gwelwch ar y dudalen yma. O dan yr un a adgynhyrchwyd leia yma mae'r dyddiad 1896 ac fe wyddir i sicrhwydd mai un Mr W.H. Caffyn a wnaeth y poster. Ac felly, a derbyn gair Sian Lloyd Williams, mae'n rhaid mai Hugh Williams biau'r ucha a'r mwya o'r ddau.

Ond pam mae'r ddau lun mor debyg a pham mae'r un geiriau dan y ddau. Caed goleuni ar hynny pan eglurwyd mai cwmni Bovril oedd piau'r geiriau *'Alas! my poor brother'*. Yr hyn sy'n awgrymu mai comisiwn gan y cwmni i dynnu'r union fath o lun y gelwid amdano oedd yma.

* * *

MAE'N debygol hefyd fod llun Hugh Williams yn ddiweddarach nag un 1896 — mae'r teip a ddefnyddir yn y poster yn llai Fictoriaidd ac mae'r botel Bovril ei hun yn debycach i ffotograff ym mhoster Hugh Williams. Mae'r ddau boster mewn lliw — mewn gwell lliw ar boster Hugh Wilisma.

A dyna ddiwedd y stori yna. J.R.W.

BOVRIL



"Alas! my poor Brother"

I GYFARCH HEN GEFNOGWR

WELE gloi'r *Casglwr* hwn trwy lawenhau fod Brenin y Llyfrwerthwyr Ail-law Cymreig, David Hughes, yn gwella wedi gwaeledd ac yn mentro eto tua'r siop yn Llandudno a gadwyd yn agored gan y mab trwy'r anhwylder. Bu gyfaill da i'r *Casglwr* a'r casglwyr â'i fonedigeiddrwydd a'i degwch yn haeddu englyn neu ddau gan ei hen gyfaill Derwyn Jones, sy a'i awen ei hun i ymddangos cyn y Brifwyl yn ei gyfrol *'Cerddi'*.

Gwae ei ostwng gan gystudd! — llawen ŷm
Gwella'n awr mae Dafydd.
Â hwyd iach, ei gorff bob dydd
A ddaw'n iau. Daw'n ddyd newydd.

Yn esmwyth drin ei gwsmer, — cawn ei weld
Ef cyn hir rhwng amlder
Llyfrau, rif cysawdau'r sêr,
Yntau'n rheoli'r cownter!